# Y Pwyllgor Craffu - Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol

## Adroddiad Blynyddol 2024-25

## Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

onestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Mo
wella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfra
onestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Mo
wella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfra
onestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi

sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

## Cynnwys


Rhagair gan y Cadeirydd ........ 2
1. Cyflwyniad ........ 3
2. Trosolwg o Waith y Pwyllgor yn 2024/25 ........ 3
2.1 Rôl Craffu ........ 3
2.2 Y Blaengynllun Gwaith ........ 5
2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu - Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ........ 5
2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol ........ 5
2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2023/24 ........ 6
2.4.2 Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol Drafft 2024/25 ........ 6
2.4.3 Adroddiadau Perfformiad 2024/25 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor ........ 7
2.4.4 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau ........ 7
2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ........ 7
2.5.1 Adroddiadau Monitro'r Gyllideb ........ 8
2.5.2 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ........ **Error! Bookmark not defined.**
2.5.3 Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2023/24 ........ 8
2.5.4 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26-2027/28 ........ 8
2.6 Adran y Gwasanaethau Corfforaethol ........ 9
2.6.1 Adroddiad ynghylch y Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys ........ 9
2.6.2 Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025-26 ........ 9
2.7 Adran y Prif Weithredwr ........ 10
2.7.1 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ........ 10
2.7.2 Monitro Absenoldeb Salwch ........ 10
2.7.3 TIC – Rhaglen Drawsnewid y Cyngor ........ 10
2.7.4 Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Ganolfan Gyswllt Gorfforaethol ........ 11
3. Gweithgarwch Craffu Arall ........ 11
3.1 Gorchwyl a Gorffen ........ 11
3.2 Ymweliadau Safle ........ 12
3.3 Sesiynau Datblygu ........ 12
4. Effaith ........ 12
4.1 Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni? ........ 12
5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd ........ 13
6. Heriau ........ 13
7. Gwaith yn y Dyfodol ........ 14
8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu ........ 14
9. Presenoldeb ........ 15

## Rhagair gan y Cadeirydd



Croeso i adroddiad blynyddol y Pwyllgor Craffu - Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar gyfer blwyddyn y cyngor 2024/25. Fel Cadeirydd, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn i chi sy'n manylu ar y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae craffu yn rhan hanfodol o ddemocratiaeth leol a llywodraethu da. Mae'r gwaith a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn atebol ac yn dryloyw, yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae cwestiynu a herio'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau hefyd yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion ac i sbarduno gwelliant. Mae'r Pwyllgor wedi parhau yn ei rôl o fonitro absenoldeb salwch, rheoli perfformiad a chyllidebau sy'n berthnasol i'r elfen graffu hon.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r pwyllgor wedi parhau i weithio'n agos gydag aelodau'r cabinet ac uwch swyddogion.

Rydym wedi craffu ar y cyllidebau a gyflwynwyd i ni gan gydnabod y cyfnod ariannol heriol yr ydym yn ei wynebu, wedi edrych ar y ffigurau a gyflwynwyd ac wedi dwyn y weithrediaeth i gyfrif lle rydym wedi gweld problemau.

Hefyd gwnaethom barhau â'n gwaith gorchwyl a gorffen eleni lle roedd yr aelodau am gael sicrwydd ynglŷn â'r modd yr ydym yn rhyngweithio ag aelodau'r cyhoedd, yn enwedig drwy gyfrwng ein canolfannau cyswllt corfforaethol. Rydym yn gobeithio cwblhau'r gwaith hwn a chyhoeddi adroddiad eleni yn nodi ein canfyddiadau.

Mae'r aelodau hefyd wedi gallu parhau i ddatblygu trwy gyfres o seminarau wedi'u trefnu ynghylch pynciau penodol.

Edrychaf ymlaen unwaith eto at yr her o fod yn gadeirydd ar y Pwyllgor hwn yn ystod y flwyddyn i ddod a chyda chymorth fy Is-gadeirydd a gweddill y Pwyllgor. Gobeithiaf y cawn effaith gadarnhaol ar y canlyniadau i drigolion Sir Gaerfyrddin.

Yn olaf, hoffwn ddiolch hefyd i holl aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion am eu cyfraniadau a'u hymroddiad yn ystod 2024/25.

**Y Cynghorydd Giles Morgan**
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol**

# 1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth Graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrff partner ar draws y sir.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu *"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol"*.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Craffu - Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25. Ei nod yw rhoi cyfle i aelodau fwrw golwg ar ei gyflawniadau, nodi meysydd arferion gorau a thynnu sylw at feysydd i'w gwella er mwyn gwella'r swyddogaeth graffu ymhellach. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn hwyluso trafodaeth ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Giles Morgan ac mae'n cynnwys 12 Aelod Etholedig ac mae Aelodau Cabinet yn mynd i gyfarfodydd yn ôl y gofyn er mwyn annerch y Pwyllgor ar feysydd o fewn eu portffolios priodol.

Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a swyddogion eraill y Cyngor, pan fo angen.

# 2. Trosolwg o Waith y Pwyllgor yn 2024/25

## 2.1 Rôl Craffu

Diweddarwyd cylchoedd gwaith y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022 a daeth pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar Bortffolios Penodol y Cabinet a'u gwasanaethau perthnasol a chael trosolwg ohonynt. Mae'r Pwyllgor Craffu - Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol yn gyfrifol am graffu ar y Cabinet a phortffolios canlynol y Cabinet a'u meysydd gwasanaeth priodol:-

**Y Cynghorydd Darren Price - Arweinydd**

| | |
|---|---|
| Cadeirydd y Cabinet | Cysylltu ag arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill |
| Cysylltiadau â Llywodraeth Cymru | Strategaeth Gorfforaethol |
| Cysylltiadau â Llywodraeth Leol | Craffu |
| Cynrychioli'r Cyngor - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru |
| Dinas-Ranbarth Bae Abertawe | Pennu Portffolios y Cabinet |
| Marchnata a'r Cyfryngau | Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Penodi Aelodau'r Cabinet | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

| | |
|---|---|
| Cyswllt â'r Prif Weithredwr | Partneriaeth |

**Adnoddau**

| | |
|---|---|
| Strategaeth Gyllid a'r Gyllideb | Caffael a Fframweithiau |
| Rhaglen Gyfalaf | Cyflawni Arbedion |
| Rheoli Asedau / Eiddo | Gwasanaethau Ariannol |
| Comisiynu a Chaffael | Budd i'r Gymuned |
| Rheoli Risg a Chynllunio Risg | Y Dreth Gyngor |
| Budd-daliadau Tai | Ardrethi Annomestig Cenedlaethol |
| Refeniw | Cyllid Strategol (Prosiectau Corfforaethol) |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Llywodraethu Corfforaethol |
| Cynrychiolydd y Cabinet ar y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol | |

**Trefniadaeth a'r Gweithlu**

| | |
|---|---|
| Canolfannau Cyswllt a'r Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid | Gweithio ystwyth |
| Cydraddoldeb – polisi a'r gweithlu | Arweinydd Polisi Iechyd a Diogelwch |
| Adnoddau Dynol a Chynllunio'r Gweithlu | Cyflawni Blaenoriaethau'n Gorfforaethol |
| Rheoli Perfformiad | Gwasanaethau Etholiadol |
| Busnes a Gwella Gwasanaethau | Y Crwner |
| Archwilio Cymru | Cofrestryddion (Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau) |
| Hyfforddiant – Dysgu a Datblygu | Ymgysylltu ag Undebau Llafur |
| TGCh Darparu Gwasanaethau Digidol | Datblygu Sgiliau |
| T.I.C. (Trawsnewid i Wneud Cynnydd) | Cynllunio Gweithlu Rhanbarthol |
| Llesiant Gweithwyr | Rhaglen Sgiliau a Thalentau (y Fargen Ddinesig) |
| Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol | Amrywiaeth y Gweithlu |
| Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog | Cuddwylio, Rhyddid Gwybodaeth a diogelu data |
| Y Rhaglawiaeth | Cwynion |
| Iechyd Galwedigaethol | Hyrwyddwr Gwrthgaethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol |
| Gwerthoedd Craidd | |

Yn unol â'i feysydd cyfrifoldeb, bydd y Pwyllgor Craffu - Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol yn ceisio:-

- Archwilio pa mor dda y mae'r Cabinet a'r Cyngor yn perfformio;
- Dwyn y Cabinet i gyfrif a cheisio hyrwyddo proses benderfynu sy'n agored ac yn dryloyw;
- Monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor;
- Adolygu penderfyniadau'r Cabinet lle bo hynny'n briodol;

- Cynorthwyo'r Cabinet i ddatblygu, monitro, ac adolygu polisïau;
- Craffu ar y strategaeth cyllideb refeniw a'r rhaglenni buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig, a hynny fel rhan allweddol o'r broses ymgynghori;
- Galluogi sefydliadau a phartneriaid allanol i gyfrannu at y gwaith o ystyried materion a all effeithio ar y modd y cyflawnir blaenoriaethau'r Cyngor a'r sir gyfan.

## 2.2 Y Blaengynllun Gwaith

Mae'r broses graffu yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo atebolrwydd ym mhroses gwneud penderfyniadau yr Awdurdod Lleol. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio ag asiantaethau allanol.

Er mwyn i'r Pwyllgorau Craffu gymryd mwy o berchnogaeth o'u Blaengynlluniau Gwaith eu hunain, cyflwynwyd dull craffu cyn gwneud penderfyniadau ym mis Medi 2022 sy'n caniatáu i Bwyllgorau Craffu benderfynu pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y maent am eu gweld yn dod ger eu bron. Yn ôl y drefn arferol, mae Pwyllgorau hefyd yn gallu nodi eu pynciau eu hunain ac mae'r Cabinet yn dal i allu gwahodd Pwyllgor Craffu i graffu ar benderfyniad oedd ar y gweill.

Defnyddiodd y Pwyllgor fframwaith Gateway y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu i ddatblygu ei Flaengynllun Gwaith ar gyfer blwyddyn y cyngor 2024/25 a adolygwyd yn rheolaidd. Roedd hyn yn darparu dull hawdd ei reoli, hyblyg a chadarn o graffu ac yn sicrhau bod y meysydd i'w hadolygu yn cael eu hystyried ar sail blaenoriaeth ac mewn modd amserol.

Yn hyn o beth, penderfynodd y Pwyllgor ddosbarthu adroddiadau cyfnodol ynghylch perfformiad a monitro'r gyllideb i aelodau y tu allan i'r rhaglen cyfarfodydd ffurfiol. Roedd y broses hon yn golygu bod modd gosod unrhyw faterion perthnasol a nodwyd gan aelodau ar yr agenda ffurfiol i'w hystyried ymhellach, fel y bo'n briodol. Arweiniodd manteision y dull hwn o weithio at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu. At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Blaengynllun Gwaith.

## 2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu - Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol

Trefnir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos er mwyn ystyried materion ac adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn ei Flaengynllun Gwaith. Cynhaliodd y Pwyllgor 6 chyfarfod ffurfiol yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25 a chynhaliwyd pob cyfarfod yn unol â'r darpariaethau a nodir yn Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, Craffu Un Diwrnod ac ymweliadau â sefydliadau a ddaw o fewn ei gylch gwaith, ynghyd â sesiynau datblygu a gweithdai.

## 2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Un o brif rolau'r Pwyllgor Craffu - Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol yw monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau o fewn ei gylch gwaith. Yn unol â hynny, mae'r

Pwyllgor yn adolygu adroddiadau monitro perfformiad a gwahanol strategaethau a chynlluniau i roi asesiad cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol.

### 2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2023/24

Ym mis Tachwedd 2024 bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2023/24 a gynhyrchwyd yn unol â'r darpariaethau perthnasol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth ar y sail ganlynol ar gyfer pob Amcan Llesiant yn ogystal â'r blaenoriaethau Thematig a Gwasanaeth:

- **Trosolwg o gynnydd** – mae'n rhoi trosolwg cryno o'n cynnydd mewn perthynas â mesurau cyffredinol ar gyfer pob Amcan Llesiant, gan gysylltu hyn â phwysigrwydd yr amcan hwnnw.
- **Yn gryno** – mae'n rhoi trosolwg o'n cynnydd mewn perthynas â phob un o'n meysydd blaenoriaeth Thematig a Gwasanaeth.
- **Sut rydym yn gwneud?** - mae'n rhoi dadansoddiad o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'n mesurau allweddol fel y manylir yn y Gyfres Ddata Gorfforaethol.
- **Cynnydd yn erbyn Camau Gweithredu** – mae'n rhoi cynnwys ar weithgarwch o bob rhan o'r sefydliad sy'n ymwneud â'r canlyniad hwnnw neu'n mynd i'r afael â'r canlyniad hwnnw.
- **Oes unrhyw un ar ei ennill?** - mae'r adran hon yn darparu astudiaethau achos neu straeon newyddion da yn ymwneud â'r elfen 'So What?'. Mae'r ffocws ar dynnu sylw at y gwahaniaeth rydym wedi'i wneud i fywydau ein trigolion a'n defnyddwyr gwasanaeth trwy ein gweithgareddau.
- **Sut gallwn ni wneud yn well?** – mae'r adran hon yn darparu crynodeb o'r meysydd i'w gwella a nodwyd er mwyn mynd ati i wneud y gwelliannau hynny.

Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y pedwar Amcan Llesiant sy'n dod o fewn ei gylch gwaith, sef:

| | |
|---|---|
| **Amcan Llesiant 1:** | Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda). |
| **Amcan Llesiant 2:** | Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda). |
| **Amcan Llesiant 3:** | Gwneud ein cymunedau a'n hamgylchedd yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus). |
| **Amcan Llesiant 4:** | Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon (Ein Cyngor) |

**Canlyniad:**
Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i'r Adroddiad Blynyddol ar 2 Rhagfyr 2024 pryd yr argymhellwyd i'r Cyngor ei fod yn cael ei gymeradwyo, ac yn dilyn hynny cafodd ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2024.

### 2.4.2 Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol Drafft 2024/25

Ym mis Ionawr 2025 bu'r Pwyllgor yn ystyried y Cynlluniau Cyflawni Gwasanaethau Is-adrannol sy'n berthnasol i Gyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr ac Adnoddau Corfforaethol ar gyfer 2025-2026 fel a ganlyn:-

- Pobl, Digidol a Pholisi 2025/26;
- Y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil 2025/26;
- Marchnata a'r Cyfryngau 2025/26;
- Datblygu Economaidd ac Eiddo 2025/26;
- Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol 2025/26;
- Gwasanaethau Ariannol 2025-26.

Roedd y cynlluniau hyn yn pennu'r camau a'r mesurau strategol i'w gweithredu ym mhob is-adran er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i amcanion llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried y blaenoriaethau a amlinellwyd ar gyfer yr Is-adran a gwneud sylwadau yn eu cylch.

**Canlyniad:**
Derbyniodd y Pwyllgor y Cynlluniau Busnes Drafft ar gyfer y Gwasanaethau o fewn Adrannau'r Prif Weithredwr ac Adnoddau Corfforaethol sy'n dod o fewn ei gylch gwaith ar 31 Ionawr 2025.

### 2.4.3 Adroddiadau Perfformiad 2024/25 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, cafodd adroddiadau monitro perfformiad chwarterol sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor eu dosbarthu drwy e-bost i aelodau fel a ganlyn:-

- 6 Tachwedd 2024 – Monitro Perfformiad Chwarter 1 2024/25
- 31 Rhagfyr 2025 – Monitro Perfformiad Chwarter 2 2024/25
- 16 Ebrill 2025 – Monitro Perfformiad Chwarter 3 2024/25

Roedd yr adroddiadau yn galluogi aelodau i fonitro perfformiad mewn perthynas â'r Amcanion Llesiant sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor ac sy'n cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod. Roedd y wybodaeth yn rhoi hunanwerthusiad o berfformiad yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol diwygiedig sydd wedi'i ymgorffori yn Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

### 2.4.4 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau

Yn ystod blwyddyn y cyngor gwnaed ceisiadau am eitemau ychwanegol gan aelodau'r Pwyllgor i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl graffu. Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y Camau Gweithredu a'r Atgyfeiriadau i'r Pwyllgor yn ei gyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2024 a 16 Ebrill 2025 a oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.

## 2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

### 2.5.1 Adroddiadau Monitro'r Gyllideb

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, dosbarthwyd adroddiadau chwarterol ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol i aelodau fel a ganlyn:-

- 6 Tachwedd 2024 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 30 Mehefin 2024;
- 18 Rhagfyr 2024 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Awst 2024;
- 31 Ionawr 2025 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Hydref 2024, a
- 16 Ebrill 2025 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Rhagfyr 2024.

Roedd yr adroddiadau yn galluogi'r aelodau i fonitro gwariant ym mhob maes gwasanaeth a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

### 2.5.2 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol am y cyllidebau cyfalaf a refeniw adrannol a chorfforaethol. Galluogai'r adroddiadau hyn yr aelodau i fonitro'r gwariant ym mhob maes a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.

Yn ogystal â monitro'r gyllideb bresennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 i 2027/28. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cynigion presennol i'r Pwyllgor ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2025/26, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2025/26 a 2027/28.

Derbyniodd yr Aelodau'r adroddiad a chymeradwyo'r Crynhoad Taliadau. Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd 2025/26 - 2029/30.

### 2.5.3 Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2023/24

Yn ogystal â monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf cyfredol, dosbarthwyd Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2023/24 i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2024 a roddodd i'r Pwyllgor sefyllfa ariannol fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Rhoddodd yr adroddiad y ffigurau alldro terfynol i'r Pwyllgor a oedd yn dangos gorwariant o £4,661k ar lefel adrannol. Ar ôl ystyried y tanwariant ar daliadau cyfalaf a'r symudiad mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chronfeydd wrth gefn Adrannol, roedd y sefyllfa net ar gyfer yr Awdurdod yn golygu gorwariant o £755k.

### 2.5.4 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26-2027/28

Yn ogystal â monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf presennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 i 2027/28 yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2025. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r Strategaeth Cyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer

2025/26 i'r Pwyllgor, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2025/2026 a 2027/28.

**Canlyniad:**
Fel rhan o ymgynghoriad eang yr Awdurdod a gynhaliwyd ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26, roedd y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo'r Strategaeth yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2025. Wedi hynny, cytunodd y Cabinet ar y Strategaeth ar 17 Chwefror 2025 a mabwysiadodd y Cyngor y Strategaeth ar 26 Chwefror 2025.

## 2.6 Adran y Gwasanaethau Corfforaethol

### 2.6.1 Adroddiad ynghylch y Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau yn amlinellu'r gweithgareddau o fewn Swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys yn ystod blwyddyn y cyngor.

Roedd yr adroddiadau ynghylch Rheoli'r Trysorlys yn amlinellu'r gweithgareddau fesul cyfnod i'r Pwyllgor. Mae'r Dangosyddion Darbodus wedi'u cynllunio i sicrhau bod unrhyw fenthyca neu rwymedigaethau hirdymor eraill yr ymrwymir iddynt at ddibenion cyfalaf yn fforddiadwy, yn gynaliadwy ac yn ddarbodus. Mae'r Dangosyddion yn ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2023 a'r fersiwn ddiwygiedig o'r Côd Ymarfer Darbodaeth er mwyn rheoli cyllid cyfalaf. Mae rhai o'r dangosyddion yn cael eu monitro gan swyddogion yn fisol ac adroddir yn eu cylch dim ond os ydynt yn debygol o gael eu torri. Mae eraill yn cael eu monitro bob chwarter gan y Cabinet.

### 2.6.2 Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025-26

Ym mis Ionawr 2025 adolygodd y Pwyllgor benderfyniadau rheoli'r trysorlys a'r prosesau a'r arferion a ddefnyddiwyd wrth wneud y penderfyniadau hynny at ddibenion dysgu o'r gorffennol, ac i ddangos bod camau rhesymol wedi'u cymryd i sicrhau bod yr holl faterion sy'n berthnasol i'r penderfyniadau hynny wedi cael eu hystyried ar y pryd.

Darperir yr adroddiadau er mwyn cydymffurfio â'r fersiynau diwygiedig o Gôd Darbodaeth CIPFA a Chôd Ymarfer CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys 2021. Mae'n ofynnol bod y Cyngor yn cynnal Polisi Rheoli'r Trysorlys sy'n nodi polisïau ac amcanion gweithgareddau'r Awdurdod o ran Rheoli'r Trysorlys ac yn cymeradwyo strategaeth yn flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

**Canlyniad:**
Ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth a'i chymeradwyo yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2025. Wedi hynny, cytunodd y Cabinet ar y strategaeth ar 17 Chwefror 2025 a mabwysiadodd y Cyngor y strategaeth ar 26 Chwefror 2025.

## 2.7 Adran y Prif Weithredwr

### 2.7.1 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi ei bod yn ofynnol i bwyllgor craffu dynodedig graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ym mis Gorffennaf 2024, mis Tachwedd 2024, mis Rhagfyr 2024 a mis Ebrill 2025 bu'r Pwyllgor, fel y pwyllgor craffu dynodedig a benodwyd i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn adolygu ac yn asesu'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn y cofnodion.

**Canlyniad:**
Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin.

### 2.7.2 Monitro Absenoldeb Salwch

Ym mis Rhagfyr 2024 aeth y Pwyllgor ati i adolygu absenoldeb salwch yr Awdurdod ar gyfer yr holl weithwyr a gyflogir gan yr Awdurdod. Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi data am absenoldeb salwch ar gyfer cyfnod cronnol Chwarter 2 2024/25 gyda throsolwg o'r cymorth llesiant gweithwyr a ddarparwyd.

Ymatebwyd yn foddhaol i ymholiadau craffu a godwyd mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad ac roedd yr Aelodau'n canmol y modd proffesiynol o reoli salwch ac yn diolch i'r swyddogion am y gefnogaeth a roddwyd i staff.

**Canlyniad:**
Ystyriodd a derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Perfformiad Absenoldeb Salwch ar gyfer cyfnod cronnol Chwarter 2 2024/25 a'r diweddariad diwedd blwyddyn.

### 2.7.3 TIC – Rhaglen Drawsnewid y Cyngor

Ym mis Rhagfyr 2024 a mis Ebrill 2025, cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ynglŷn ag adolygu dull yr Awdurdod o drawsnewid. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd yn llawn â nodau ac amcanion y Strategaeth Gorfforaethol newydd. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar gyflawni'r 8 blaenoriaeth thematig ganlynol:

- Arbedion a Gwerth am Arian
- Incwm a Masnacheiddio
- Dylunio a Gwella Gwasanaethau
- Y Gweithlu
- Gweithle
- Cwsmeriaid a Digidol
- Datgarboneiddio
- Ysgolion

Mae Strategaeth Drawsnewid yn cael ei datblygu a fydd yn darparu’r fframwaith strategol ar gyfer tanio rhaglen o newid a thrawsnewid arwyddocaol ar draws y sefydliad dros y 5 mlynedd nesaf.

**Canlyniad:**
Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a'i gymeradwyo.

### 2.7.4 Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Ganolfan Gyswllt Gorfforaethol

Ym mis Hydref 2023 cafodd y Pwyllgor drafodaeth ynghylch sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar weithrediad y Ganolfan Gyswllt Gorfforaethol o fewn yr Awdurdod.

Yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25, cyfarfu'r panel ar 2 Hydref, 2024 a 21 Chwefror, 2025. Trafododd y Grŵp nifer o faterion a oedd yn cynnwys:

- ffyrdd o wella'r amser aros cyfartalog ar gyfer galwadau ffôn,
- asesu rhifau ffôn nad ydynt yn cael eu defnyddio drwy gydol yr awdurdod,
- adolygu canolfannau cyswllt bach,
- cryfhau'r berthynas rhwng canolfannau HWB a'r Ganolfan Gyswllt,
- gwella galwadau dwyieithog

**Canlyniad:**
Cytunodd y Grŵp i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu cyn gwyliau'r haf yn 2025. Yn anffodus, oherwydd newidiadau staffio, nid oedd modd bodloni'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r adroddiad ac felly cytunwyd yn ystod y cyfarfod Pwyllgor ar 10 Gorffennaf 2025 i ymestyn y dyddiad cau a chyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor yn hwyrach yn y flwyddyn.

# 3. Gweithgarwch Craffu Arall

## 3.1 Gorchwyl a Gorffen

Pwrpas y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yw cyfrannu at ddatblygu polisi newydd neu ymgymryd â darn o waith craffu ymchwiliol. Mae grwpiau o'r fath wedi bod yn allweddol wrth gryfhau datblygiad polisi / rolau craffu ymchwiliol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yn ystod blwyddyn y cyngor, fel rhan o'i rôl ymchwiliol, aeth y Pwyllgor ati i lunio Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r Ganolfan Gyswllt Gorfforaethol.

Amcanion a chwmpas yr Adolygiad Gorchwyl a Gorffen oedd:
- Adolygu perfformiad a datblygiad y Ganolfan Gyswllt Gorfforaethol
- Nodi a oedd y gwasanaeth presennol yn ddigon cadarn, cyson, cydlynol, heb fod yn dyblygu ac yn rhoi gwerth am arian.
- Llunio argymhellion i'w hystyried gan y Cabinet.

Roedd aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys 6 aelod etholedig a benodwyd i adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn ei gyfanrwydd, cyn belled ag y bo modd:-

| | |
|---|---|
| **Plaid Cymru:** | Y Cynghorydd Alex Evans, y Cynghorydd Kim Broom,<br>Y Cynghorydd Terry Davies |
| **Y Grŵp Annibynnol:** | Y Cynghorydd Giles Morgan |
| **Grŵp Llafur:** | Y Cynghorydd Derek Cundy (a benodwyd tan fis Mai 202<br>Cynghorydd Dot Jones, |

### 3.2 Ymweliadau Safle

Nid oedd y Pwyllgor wedi cynnal unrhyw ymweliadau safle yn ystod 2024/2025.

### 3.3 Sesiynau Datblygu

Yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25, gwahoddwyd Aelodau i'r sesiynau/seminarau datblygu canlynol a drefnwyd gan yr Awdurdod:-

| | |
|---|---|
| 22/05/2024 | Cyflwyniad i Waith Crwner Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin |
| 10/07/2024 | Gosod Arwyneb Newydd ar Briffyrdd a Chynnal a Chadw Priffyrdd |
| 25/07/2024 | Sesiwn Briffio A106 |
| 11/09/2024 | Sesiwn galw heibio - Diogelu'r Amgylchedd – Safonau Bwyd ac Iechyd y Cyhoedd |
| 26/09/2024 | Diogelu Corfforaethol |
| 9/10/2024 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Bentre Awel |
| 21/10/2024 | Trafnidiaeth Cymru – Cyfarfod Masnachfreinio Bysiau |
| 29 & 30/10/2024 | Sesiwn hyfforddi Ymwybyddiaeth Ystyriol o Ddementia |
| 12/11/2024 | Meithrin Seibergadernid: Diogelu Dyfodol Digidol Ein Cyngor |
| 20/11/2024 | Paratoi ar gyfer y Gaeaf |
| 10/12/2024 | Rôl a Phrif Ddyletswyddau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| 11/12/2024 | Diweddariad Blynyddol gan y Prif Swyddog Tân |
| 29/01/2025 | Rheoli maethynnau – Canllawiau a Heriau Cenedlaethol |
| 05/02/2025 | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| 12/02/2025 | Swyddogion Etholedig – Sesiwn Briffio ynghylch Diogelwch Personol |
| 12/02/2025 | Datblygiad Un Blaned |
| 18/02/2025 | Gweithdy Hunanasesu'r Swyddogaeth Graffu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Sesiwn 1 |
| 24/02/2025 | Gweithdy Hunanasesu'r Swyddogaeth Graffu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Sesiwn 2 |
| 09/04/2025 | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol - Digwyddiad galw heibio |

Yn ogystal â'r uchod, aeth yr aelodau i sawl seminar ar y gyllideb a gynhaliwyd yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2025-26 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.  Cynhaliodd y Pwyllgor y sesiynau pwrpasol canlynol hefyd:

| Dyddiad | Sesiwn Datblygu / Seminar |
|---|---|
| 23/10/24 | Ymweliad y Pwyllgor ag Iechyd Galwedigaethol |
| 06/03/25 | Thinqi ac Oleeo – Systemau Rheoli Dysgu |
| 2/04/25 | Ail ymweliad y Pwyllgor ag Iechyd Galwedigaethol |

## 4. Effaith

### 4.1 Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni?

Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod yn cael eu gwneud gan y Cabinet. Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r 65 o Gynghorwyr anweithredol eraill ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny a gweithredu fel 'cyfaill beirniadol". Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn arbennig o ddylanwadol yn hyn o beth gan ei fod yn rhoi cyfle i Bwyllgorau Craffu ystyried a rhoi sylwadau ar bolisïau a materion sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet. Hefyd mae Craffu yn helpu i sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol.

Mae Craffu yn chwarae rôl allweddol wrth wella'r gwasanaethau a ddefnyddir gan bobl a phlant Sir Gaerfyrddin. Hefyd mae'r broses graffu yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol. Mae cyfraniad preswylwyr lleol, sefydliadau a phartneriaid yn y gymuned yn rhan bwysig o'r broses graffu ac mae ein Cynghorwyr wedi ymrwymo i ymateb i sylwadau a phryderon preswylwyr.

Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn rhoi cyfle i bob Pwyllgor Craffu roi mewnbwn cyn i'r adroddiadau gael eu hystyried gan y Cabinet a dyma lais y bobl. Yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25, mae'r Pwyllgor Craffu - Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol wedi cael effaith gadarnhaol mewn sawl ffordd, gan wneud gwaith y Cyngor yn agored ac yn dryloyw i'r cyhoedd.

## 5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae'r swyddogaeth graffu yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Awdurdod lle gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am i eitemau gael eu gosod ar agenda cyfarfod y Pwyllgor. Mae'r rhai sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, neu sy'n berchen ar fusnes neu'n cael eu cyflogi yn y sir, hefyd yn cael gofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

Er na dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw awgrymiadau o bynciau posibl gan y cyhoedd yn ystod 2024/25, roedd Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor yn cynnwys amrywiaeth o bynciau a oedd yn gofyn am ymgynghori â'r cyhoedd/cynnwys y cyhoedd.

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o Bwyllgorau Craffu a gallu'r cyhoedd i gyflwyno pynciau i'w trafod, cyhoeddir Blaengynlluniau Gwaith Pwyllgorau Craffu yr Awdurdod, a manylion ynghylch sut y gall y cyhoedd gymryd rhan, ar wefan yr Awdurdod:-

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/pwyllgorau-a-chyfarfodydd/craffu/

Yn ystod blwyddyn y cyngor, rhoddodd is-adran Gyfathrebu yr Awdurdod gymorth marchnata digidol i'r swyddogaeth Graffu gan fynd ati i hyrwyddo manylion eitemau ar gyfer y dyfodol a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd mewn ymgais i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogiad y cyhoedd. Gwahoddir y cyhoedd, drwy nifer o wahanol ffyrdd, i gymryd rhan yn y broses Graffu ac i dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n peri pryder.

## 6. Heriau

Wrth ymgymryd â'i waith, mae'r Pwyllgor wedi wynebu sawl her. Mae'r rhain yn cynnwys eitemau na chafwyd adroddiadau yn eu cylch yn unol â'r Flaenraglen Waith a'r oedi wrth dderbyn adroddiadau ariannol, er bod hyn bellach yn cael sylw yn unol â'r hyn a ganiateir gan y gweithdrefnau ariannol.

## 7. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod blwyddyn y cyngor a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth.

Cafodd gwaith y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26 ei ystyried gan y Pwyllgor mewn sesiwn Blaengynllun Gwaith ar 16 Ebrill 2025 a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel rhan o fonitro'r Blaengynllun Gwaith yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn gwella swyddogaeth graffu'r Awdurdod, bydd aelodau'n parhau i fynd i sesiynau datblygu, yn gofyn am gyngor y swyddogion lle y bo'n briodol ac yn manteisio'n llawn ar drafodaeth anffurfiol cyn cyfarfodydd.

## 8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn Is-adran y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil yn Adran y Prif Weithredwr. Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:-

- llunio ac anfon agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn unol â'r Blaengynlluniau Gwaith;
- darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau'r Cyngor a'i swyddogion;
- rheoli datblygiad strategol Craffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu gyda'r Cabinet;
- rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- rheoli cydlyniad a datblygiad Blaengynlluniau Gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd.
- cynorthwyo â Rhaglen Datblygu Aelodau'r Pwyllgorau Craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am Graffu yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys Blaengynlluniau Gwaith, adroddiadau Gorchwyl a Gorffen ac Adroddiadau Blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu.

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu e-bostiwch craffu@sirgar.gov.uk.

## 9. Presenoldeb

Dangosir presenoldeb gan aelodau'r Pwyllgor Craffu - Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25 yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o chwe chyfarfod yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25.

| Aelod y Pwyllgor Craffu | Cyfarfodydd a fynychwyd | % |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Kim Broom | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Derek Cundy<br>(hyd at fis Gorffennaf 2024 = 2 ) | 2 | 100 |
| Y Cynghorydd Terry Davies | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Alex Evans | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Nysia Evans | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Deian Harries | 0 | 0 |
| Y Cynghorydd Rob James<br>(ymunodd 29/1/2025) | 2 | 100 |
| Y Cynghorydd Gareth John | 5 | 83 |
| Y Cynghorydd Dot Jones | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Jean Lewis | 5 | 83 |
| Y Cynghorydd Giles Morgan | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Dai Nicholas<br>(ymunodd 9/10/2024) | 2 | 50 |
| Y Cynghorydd Stephen Williams<br>(ymunodd 8/5/2024) | 6 | 100 |
| Dirprwyon | | |
| Y Cynghorydd Meinir James | 1 | 100 |
| **Aelodau'r Cabinet** | **Cyfarfodydd a fynychwyd** | |
| Y Cynghorydd Darren Price (Arweinydd) | 2 | |
| Y Cynghorydd Philip Hughes (Trefniadaeth a'r Gweithlu) | 5 | |
| Y Cynghorydd Alun Lenny (Adnoddau) | 3 | |